

CYRSIAU 2016



CYMDEITHAS Y BYDDAR GOGLEDD CYMRU

GWYBODAETH AM EIN CYRSIAU

77 Ffordd Conwy
Bae Colwyn, LL29 7LN
Ffôn: 01492 530013
Minicom: 01492 524983
Ffacs: 01492 532615
sms: 07719 410355

E-bost: info@deafassociation.co.uk
Safle wê: www.deafassociation.co.uk

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant rhif: 2959589
Elusen Gofrestredig rhif: 1048017

HYFFORDDWYR



JACKIE CLAYDON

Mae Jackie wedi bod yn datblygu ac yn dysgu Ymwybyddiaeth o Fyddardod ers dros 15 mlynedd ar draws Cymru a thu hwnt. Cafodd ei hyfforddi ym Manceinion fel Athrawes darllen gwefusau a bu'n hyfforddi fel Swyddog Technegol ac Ailsefydlu yn Llundain. Mae gan Jackie lawer o flynyddoedd o brofiad gyda phobl fyddar ac wedi magu dealltwriaeth a gwybodaeth eang am ei phwnc.



LEE THOMAS

Lee yw ein Swyddog Addysg ac o ganlyniad iddo fynd yn fyddar pan oedd yn blentyn mae Lee yn deall y problemau sy'n wynebu plant byddar yn yr ysgol yn well na neb ac yn gwneud y defnydd gorau o'i brofiadau. Mae'n dysgu Ymwybyddiaeth o Fyddardod ac Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL) i athrawon a phlant ysgol gan alluogi plant byddar i oresgyn arwahanrwydd a rhwystrau cyfathrebu.



PAM WILLIAMS

Mae Pam yn ddefnyddiwr brodorol o iaith Arwyddo Prydeinig (BSL) ac wedi dysgu iaith Arwyddo Prydeinig yn llwyddiannus yng Ngholeg Llandrillo am nifer o flynyddoedd a bydd yn dysgu'r sesiynau iaith Arwyddo Prydeinig ar ran y Gymdeithas.

Mae sesiynau Pam yn hynod o ddefnyddiol i staff sy'n cwrdd â'r cyhoedd yn rheolaidd ac yn llawn mwynhad yn ogystal ag ymdrin â'r arwyddion sylfaenol a ddefnyddir o ddydd i ddydd



HOLLY PARRY

Daeth Holly fyddar yn oed o 3 ond yn mynychu ysgol prif ffrwd gyda 1 i 1 gymorth cyfathrebu cyn cwblhau gradd ym Mhrifysgol Bangor. Ers ymuno â NWDA hi wedi cwblhau cymwysterau PTLLS a CTLLS yn llwyddiannus ac wedi dod yn aelod gwerthfawr o'r tîm addysgu.

Ffioedd Cyrsiau ymlaen

Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod

Ymwybyddiaeth o un awr Fyddar a Chyfathrebu
sesiwn blasu

£150 ar gyfer hyd at 15 o gyfranogwyr

Tair awr o Hyfforddiant Ymwybyddiaeth ar Fyddardod

£350 ar gyfer hyd at 15 o gyfranogwyr

Chwe awr o Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod

£700 ar gyfer hyd at 15 o gyfranogwyr

Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL)

Tair awr o Sesiynau Blasau Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL)

£350 ar gyfer hyd at 16 o gyfranogwyr

Tair awr BSL Sesiwn Estyniad

£350 ar gyfer hyd at 16 o gyfranogwyr

Mae Agored Iefel Mynediad achrededig 3 – 2 credyg

10 awr dros 5 wythnos

£700 ar gyfer hyd at 16 o gyfranogwyr

Cyflwyniad I iaith arwyddion

Lefel Agored 1 - 3 credyd

£1,200 ar gyfer hyd at 16 o gyfranogwyr

Cyfathrebu yn y gweithle

Hanner Diwrnod o Cyfathrebu yn y gweithle am 3 awr - Rhan I

£350 ar gyfer hyd at 15 o gyfranogwyr

Hanner diwrnod o Cyfathrebu yn y gweithle am 3 awr - Rhan II

£350 ar gyfer hyd at 15 o gyfranogwyr

Ar gyfer cyrsiau lluosog gallwn drafod ffioedd llai, felly os gwelwch yn dda cysylltwch â'n swyddfeydd â'ch gofynion

PAM HYFFORDDI?

Mae mwy a mwy o ddarparwyr gwasanaeth ac eraill sy'n gweithio â hwy bellach yn cydnabod y buddion o gyrsiau hyfforddi ymwybyddiaeth o fyddardod sydd wedi eu dylunio i roi gwell dealltwriaeth i bobl sy'n clywed o anghenion pobl fyddar a thrwm eu clyw. Bydd cwrs ymwybyddiaeth o fyddardod yn cynnwys cyflwyniad i fyddardod, awgrymiadau sylfaenol i wella technegau cyfathrebu, sillafu gyda'r bysedd, ymwybyddiaeth o laith Arwyddo, arwyddion sylfaenol a Diwylliant Byddardod yn ogystal â golwg sydyn ar y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995), ei goblygiadau i ddarparwyr gwasanaeth a chyflogwyr tuag at bobl sy'n fyddar.

Sut gallwn ni eich helpu ar y maes pwysig yma?

- ❖ Gallwn gynnig cwrs hyfforddi proffesiynol, ar gyfer hyd at 20 aelod o staff.
- ❖ Gallwn deilwra ein cwrs i gwrdd ag anghenion eich sefydliad yn ogystal ag aelodau unigol o staff.
- ❖ Mae dysgu gyda ni yn brofiad gweithgar a llawn mwynhad, lle gwneir defnydd o ymarferion gweithgareddau ffug ac amryw o adnoddau gwahanol
- ❖ . Gellir darparu hyfforddiant yn y man gwaith ar gyfer naill ai sesiynau llawn neu hanner diwrnod.
- ❖ Gall hyfforddiant gostio cyn lleied â £ 7 y pen am bob awr o hyfforddiant

- ❖ Mae pob sefydliad a fydd yn cwblhau hyfforddiant yn cael ei gydnabod yn ein cylchlythyr chwarterol

ARCHEBU CWRs

Llenwch y ffurflen archebu drosodd a'i dychwelyd i'r cyfeiriad ar y dudalen flaen y daflen neu ffoniwch ni i drafod eich gofynion.

Os oes gennych ystafell hyfforddiant addas, gall hyn gael ei ddefnyddio yr amod ei fod yn ddigon mawr i ddal y nifer o bobl yr hoffech eu hyfforddi.

Mae'r cyfleusterau yr ydym yn ei gwneud yn ofynnol yn bwrdd gwyn neu siart troi, eistedd i gael eu nodi mewn pedol, goleuadau digonol ar gyfer hyfforddwr byddar i weld yr holl aelodau'r grŵp, te a Cyfleusterau gwneud coffi ar gyfer y gwyliau.

Gall hyfforddiant ddigwydd mewn unrhyw leoliad ac ni chodir tâl ar gyfer teithio yn cael ei wneud yng Ngogledd Cymru. Tu allan i Ogledd Cymru, bydd ffi teithio yn cael ei godi.

Polisi Canslo

Os bydd raid i chi ganslo eich sesiwn yna bydd angen talu'r ffioedd canslo canlynol :-

Rhybudd o 14 diwrnod neu fwy	dim ffi
Rhybudd llai na 14 diwrnod a mwy na 7diwrnod	hanner ffi
Rhybudd llai na 7 diwrnod	ffi llawn

Gellir peidio â chodi'r ffi canslo os yr ailarchebir ac i'r hyfforddiant ddigwydd o fewn 28 diwrnod.

FFURFLEN ARCHEBU LLE AR GWRS

ENW'R SEFYDLIAD/BUSNES

.....

PERSON CYSWLLT

.....

CYFEIRIAD CYSWLLT

.....

.....
MANYLION CYSWLLT

RHIF
FFÔN.....

FFACS
.....

E-BOST
.....

LLEOLIAD HYFFORDDI (rhowch gylch o amgylch eich ateb)

GWEITHLE **SWYDDFA'R GYMDEITHAS** **ARALL**
(manylion os gwelwch yn dda)

MATH O HYFFORDDIANT SYDD EI ANGEN (rhowch gylch o amgylch eich ateb)

YMWYBYDDIAETH O FYDDARDOD

IAITH ARWYDDO PRYDEINIG (BSL) **MACATON**

DYDDIAD/AU DEWISOL AR GYFER HYFFORDDIANT

.....

HYD Y SESIWN HYFFORDDI.....

AMSER CYCHWYN

.....

MATH O GLEIENT h.y. derbynydd/gofalwyr ayb

.....

NIFER O AELODAU YN Y GRŴP

MANYLION ANFONEB

ENW.....

CYFEIRIAD.....

.....

.....

RHIF CYSWLLT

.....

CYFEIRNOD ARCHEBU OS OES ANGEN

Barn rhai sydd wedi ymgymryd â'r Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Fyddardod:

“Roedd yn ddiwrnod llawn mwynhad. Roedd y tiwtor yn gwneud y cwrs yn ysgafn a hwyliog. Lle ‘da chi ‘di bod am yr holl amser? Diwrnod gwych, beth am gael mwy!”

“Diwrnod gwych – gobeithio bydd na fwy o’r sesiynau yma ar gael i staff o fewn yr Ymddiriedolaeth. Buddiol iawn.”

“Dyma’r tiwtor yn gwneud gwaith gwych, gan ehangu ar farn y rhan fwyaf o’r bobl oedd yn bresennol gan agor ein llygaid. Diolch yn fawr.”

“Diwrnod llawn gwybodaeth. Teimlo fod gennyf well ymwybyddiaeth a bydd y sesiwn yn gwella gofal i gleifion.”

“Un o’r diwrnodau astudio gorau rwyf erioed wedi ei fynychu. Roedd y wybodaeth a’r ymwybyddiaeth a dderbynais yn amhrisiadwy. Roedd trosglwyddiad y cwrs yn wych.”

“Bydd hyn o ddefnydd ar gyfer y dyfodol, i fi a fy nghleientiaid, yn wybodaeth ac ar gadw urddas. Hefyd yn gymorth i integreiddio cleient yn yr amgylchedd fel mae’n bodoli.”

“Bydd yn ddefnyddiol fel rhan o ddatblygiad parhaus staff er mwyn eu galluogi i allu cefnogi cleientiaid a gwirfoddolwyr gyda phroblemau clywed.”

HYFFORDDIANT TAIR AWR AR YMWHYBYDDIAETH AR FYDDARDOD

- 1) Croeso
- 2) Cyflwyniad i rai strategaethau cyfathrebu
- 3) Defnyddio'r derminoleg gywir
- 4) Sut fyddai'n adnabod person sy'n fyddar?
- 5) Teclynnau Clywed – cymorth neu rwystr
- 6) Egwyl – sesiwn ymarferol
- 7) Strategaethau Cyfathrebu Da
- 8) Y Wyddor Ddwyllo Prydeinig – Sillafu gyda Bysedd – arwyddion cwestiwn yr Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL)
- 9) Cyfle i ofyn cwestiynau
- 10) Gwerthuso - Diwedd

Bydd y cwrs yn darparu hyfforddiant cyfathrebu sylfaenol a chyfle i gael cipolwg ar faterion eraill yn ymwneud â byddardod.

Cyfathrebu yn y gweithle

Mae hwn yn gwrs newydd a grëwyd mewn ymateb i angen cynyddol am hyfforddi staff sy'n gweithio gyda phobl sydd angen mwy na dim ond siarad. Mae'r cwrs yn cynnwys arwyddion, ystumiau, iaith y corff, mynegiant yr wyneb, lleferydd clir, ysgrifennu a symbolau. Bydd cynnwys y cwrs yn dibynnu ar anghenion y cleientiaid y prynwr.

Pynciau a drafodir yn cynnwys
arwyddion Bob Dydd
cwestiynau
sillafu â bysedd
lechydd a Hylendid
bwyd
Hobiau a Difyrwch

Mae'r cwrs yn addas i bobl sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion sydd â sbectrwm llawn o anghenion

cyfathrebu. **HYFFORDDIANT DIWRNOD LLAWN AR
YMWYBYDDIAETH AR FYDDARDOD**

1. Croeso
2. Cyflwyniadau– Cyflwyniad i Strategaethau Cyfathrebu
3. Ystadegau – Sawl person byddar sydd yna?
4. Terminoleg
5. Sut fyddai'n adnabod person sy'n fyddar?

Egwyl am Goffi gyda Gwahaniaeth!

6. Adborth am yr Egwyl
7. Effeithiau Seicolegol o fod yn fyddar
8. Teclynnau Clywed – Mewnblaniadau Cochlear
9. Tinitws a Meniere

Cinio

10. Ymarferion darllen gwefus
11. Strategaethau Cyfathrebu Da
12. Y Wyddor Ddwyllo Prydeinig – sillafu gyda bysedd
13. Rhoi Cyfathrebu Da ar waith

Egwyl am Goffi

14. Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL) – Arwyddion Sylfaenol
15. Agweddau o Ddiwylliant Byddardod
16. Pwy a Beth sydd ar gael i gefnogi pobl fyddar
17. Gwella eich gweithle– ei wneud yn gyfeillgar i'r defnyddiwr
18. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd – Sut all effeithio eich gweithle
19. Gwerthuso a Diwedd

Bydd y cwrs yn rhoi gwybodaeth gryno ar fyddardod a hyfforddiant gwerthfawr ar anghenion cyfathrebu ac mae'r cwrs wedi ei lunio ar gyfer pobl sy'n dod i gysylltiad yn achlysurol â phobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. Yn dilyn y cwrs yma bydd y staff yn gallu cyfathrebu yn hyderus ac effeithiol gyda phobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw.

Gellir teilwra'r cwrs yma i gwrdd ag anghenion hyfforddi eich sefydliad.

CWRS YMWYBYDDIAETH O FYDDARDOD WEDI EI ACHREDU GAN RWYDWAITH Y COLEG AGORED

O'r diwedd cwrs newydd undydd, 8 awr, wedi ei achredu!

Mae'r cwrs yma yn ymdrin mewn manylder â phob pwnc a geir mewn cwrs 6 awr ac yn cael ei asesu'n barhaus gan y tiwtor ar y diwrnod hwnnw.

Mae'r cwrs yn agored i newydd-ddyfodiaid i Ymwybyddiaeth o Fyddardod yn ogystal â bod yn gwrs gloywi i bobl sydd wedi mynychu cwrs ymwybyddiaeth o fyddardod yn y gorffennol. Caniateir rhagor o amser ar gyfer cyfathrebu ymarferol yn ogystal â sesiwn ar yr offer technegol a gaiff eu defnyddio gan bobl sy'n fyddar.

Mae'r cwrs yn cychwyn am 9yb lle byddwch yn cofrestru â Chymdeithas Addysg y Gweithwyr, ac yn gorffen am 5yh.

1. Croeso
2. Cyflwyniadau ac ymwybyddiaeth o ddarllen gwefusau
3. Ystadegau 'Beth yw'r tebygrwydd fy mod i am gwrdd â pherson sy'n fyddar?'
4. Terminoleg – sut i beidio â phechu pobl
5. Sut fyddai'n adnabod person sy'n fyddar

Egwyl am goffi gyda gwahaniaeth!

6. Adborth o'r egwyl – effeithiau Seicolegol
7. Teclynnau Clywed- Cymorth neu Rwystr (Mewnblaniadau Cochlear)
8. Effeithiau Tinitws ac anhwylderau eraill yn ymwneud â chlyw

Cinio

9. Ymarferion darllen gwefus
10. Strategaethau Cyfathrebu Da
11. Sillafu gyda Bysedd a'i swyddogaeth o fewn Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL)
12. Rhoi Cyfathrebu Da ar waith

Egwyl am Goffi

13. Pwy a Beth sydd ar gael i gefnogi pobl fyddar
14. Gwellu eich gweithle- ei wneud yn le cyfeillgar i bobl fyddar
15. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995
16. Gwerthuso a Diwedd

IAITH ARWYDDO AR GYFER Y GWEITHLE

Mae adborth o'r sesiynau Ymwybyddiaeth o Fyddardod yn aml yn gofyn am fwy o amser ar Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL). Yn anffodus ni fyddai hyn yn caniatáu i ni ymdrin yn ddigonol â thactegau cyfathrebu gyda phobl eraill byddar.

Felly o ganlyniad i boblogrwydd y pwnc mae Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru yn cynnig sesiynau blasu / sylfaenol ar Iaith Arwyddo Prydeinig – cyrsiau undydd a hanner diwrnod sy'n galluogi eich staff i ddysgu sut i gwrdd a chroesawu defnyddwyr Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL).

- Arwyddion a ddefnyddir o ddydd i ddydd
- Sillafu gyda bysedd a'i swyddogaeth o fewn Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL)
- Arwyddion Cwestiwn
- Arwyddion sy'n berthnasol i'ch gweithle
- Gwybod sut i ddefnyddio Dehonglwr Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL)
- Lle i gael gafael ar ddehonglwr
- Pwy sy'n ariannu Dehonglwr Iaith Arwyddo Prydeinig (BSL)

Caiff y sesiynau yma eu dysgu gan ddefnyddiwr Iaith Arwyddo Prydeinig sydd gyda nifer o flynyddoedd o brofiad mewn dysgu Iaith Arwyddo Prydeinig i nifer o fyfyrwyr gyda graddfa lwyddiant uchel.

Mae sesiynau wedi eu teilwra i weddu i sawl gweithlu e.e. – Iechyd – Addysg – Cartrefi Preswyl – Busnes Manwerthu ayb.

Ymwybyddiaeth Dwy Awr – cyfarchion, sillafu gyda bysedd, enwau

Cyflwyniad Tair Awr – fel uchod yn ogystal ag arwyddion cwestiwn a rhifau

Cwrs Wyth Awr wedi ei Achredu yn cynnwys yr uchod yn ogystal ag arwyddion yn ymwneud â'ch sefydliad neu waith. Caiff y cwrs yma ei asesu'n barhaus gan y tiwtor drwy gydol y dydd.